

## **Aseiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb - Rhan 1**

<b>Teitl a phwrpas y Polisi (amlinelliad byr):</b>	<b>Bil Cyllido Gofal Plant (Cymru)</b>
<b>Enw'r Swyddog:</b>	<b>Catrin Davies</b>
<b>Adran:</b>	<b>Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus- Gofal Plant, Chwarae a'r Blynyddoedd Cynnar</b>
<b>Dyddiad:</b>	<b>22 Tachwedd 2018</b>

## **Bil Cyllido Gofal Plant (Cymru)**

Mae Llywodraeth Cymru'n cyflwyno Bil gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru i roi pŵer i Weinidogion Cymru ddarparu cyllid ar gyfer gofal plant i blant cymwys rhieni sy'n gweithio. Mae'r Bil yn cynnwys pŵer i wneud rheoliadau ar weinyddu a gweithredu trefniadau a wnaed gan Weinidogion Cymru at ddibenion cyllid o'r fath. Yn unol â'r pŵer hwn, bwriedir y bydd Gweinidogion Cymru'n gwneud darpariaeth yn y rheoliadau i hwyluso rhannu data perthnasol er mwyn datblygu system genedlaethol ar gyfer ymgeisio a gwirio cymhwysedd mewn perthynas â Chynnig Gofal Plant Cymru ("y Cynnig"). System ar-lein fydd hon yn bennaf er y bydd modd gwneud cais all-lein hefyd, a bydd llinell gymorth benodedig ar gael.

Prif ffocws y Bil yw galluogi casglu ac ystyried data perthnasol er mwyn dyfarnu cymhwysedd person ar gyfer y Cynnig. I'r perwyl hwn, bwriedir y bydd y Rheoliadau a wneir o dan y Bil yn ei gwneud yn bosibl i adrannau perthnasol y Llywodraeth rannu gwybodaeth â Gweinidogion Cymru at ddibenion dyfarnu cymhwysedd person a throsglwyddo'r data perthnasol a'r dyfarniadau yn ôl y gofyn. Bydd y Bil hefyd yn caniatáu gwneud trefniadau i osod cosbau mewn sefyllfaoedd lle mae ymgeiswyr yn darparu gwybodaeth ffug neu gamarweiniol neu'n ymddwyn yn anonest. Rhaid i'r Rheoliadau a wneir o dan y Bil ddarparu trefniadau er mwyn i ymgeiswyr allu gofyn am adolygu cosb neu benderfyniad ynghylch eu cymhwysedd, a chreu proses ar gyfer apelio yn erbyn cosb neu benderfyniad ynghylch cymhwysedd.

### **Y cefndir polisi**

Amlinellwyd ymrwymiad Llywodraeth Cymru i gyflwyno'r Cynnig yn *Symud Cymru Ymlaen*<sup>1</sup> ac roedd *Ffyniant i Bawb*<sup>2</sup> yn ymhelaethu arno. Mae'r *Cynllun Gweithredu Economaidd*<sup>3</sup> a'r Cynllun Cyflogadwyedd<sup>4</sup> hefyd yn sôn am y Cynnig.

Fel y nodwyd yn *Ffyniant i Bawb*, mae'r Cynnig yn ymrwymo Llywodraeth Cymru i ddarparu:

*"30 awr o addysg a gofal plant am ddim ar draws Cymru i gefnogi teuluoedd sy'n gweithio, a'i gwneud yn haws i bobl ddod o hyd i swyddi a'u cadw".*

Mae'r Cynnig yn adeiladu ar yr ymrwymiad cyffredinol i addysg gynnar, sy'n darparu o leiaf 10 awr yr wythnos o addysg gynnar am ddim i bob plentyn 3 a 4 oed yn ystod y tymor ysgol, o'r tymor ar ôl eu pen-blwydd yn 3 oed. Yn ogystal, bydd rhieni plant 3 a 4 oed sy'n gweithio yn gymwys ar gyfer elfen gofal plant y Cynnig o'r tymor ar ôl pen-blwydd y plentyn yn 3 oed hyd at y mis Medi ar ôl ei ben-blwydd yn bedair oed:

<sup>1</sup>Llywodraeth Cymru - Symud Cymru Ymlaen 2016-2021

<http://llyw.cymru/docs/strategies/160920-taking-wales-forward-cy.pdf>

<sup>2</sup>Llywodraeth Cymru - Ffyniant i Bawb: y strategaeth genedlaethol

<http://llyw.cymru/docs/strategies/170919-prosperity-for-all-cy.pdf>

<sup>3</sup>Llywodraeth Cymru - Ffyniant i bawb: cynllun gweithredu economaidd

<http://gov.wales/docs/det/publications/171213-economic-action-plan-cy.pdf>

<sup>4</sup>Llywodraeth Cymru - Ffyniant i bawb: cynllun cyflogadwyedd

<http://gov.wales/topics/educationandskills/skillsandtraining/employability-plan-for-wales/?skip=1&lang=cy>

- lle mae'r ddau riant yn gweithio neu lle mae'r unig riant mewn teuluoedd unig rieni yn gweithio;
- lle mae'r ddau riant yn ennill, ar gyfartaledd, cyflog wythnosol sy'n cyfateb i 16 awr o leiaf ar yr Isafswm Cyflog Cenedlaethol neu'r Cyflog Byw Cenedlaethol; a
- lle mae rhieni'n hunangyflogedig neu ar gontractau dim oriau, ar yr amod eu bod eu henillion cyfartalog dros gyfnod o 3 mis yn bodloni'r meini prawf o ran isafswm enillion wythnosol.

Os yw o leiaf un riant ar yr aelwyd yn ennill £100,000 neu fwy'r flwyddyn, ni fydd y teulu hwnnw'n gymwys i fanteisio ar yr oriau ychwanegol o ofal plant a ddarperir drwy'r Cynnig.

Oherwydd bod sawl math gwahanol o deulu a bod eu sefyllfaoedd a'u hamgylchiadau yn gallu bod yn gymhleth weithiau, bydd y cyllid ar gael mewn amgylchiadau eithriadol eraill gan gynnwys:

- lle mae'r ddau riant yn gyflogedig (ac yn ennill cyflog wythnosol sy'n cyfateb i 16 awr o leiaf ar yr Isafswm Cyflog Cenedlaethol neu'r Cyflog Byw Cenedlaethol) ond bod un riant neu'r ddau riant i ffwrdd o'r gweithle dros dro ar absenoldeb riant, mamolaeth neu fabwysiadu statudol;
- lle mae'r ddau riant yn gyflogedig (ac yn ennill cyflog wythnosol sy'n cyfateb i 16 awr o leiaf ar yr Isafswm Cyflog Cenedlaethol neu'r Cyflog Byw Cenedlaethol) ond bod un riant neu'r ddau riant i ffwrdd o'r gwaith dros dro ar dâl salwch statudol;
- lle mae un riant yn gyflogedig (ac yn ennill cyflog wythnosol sy'n cyfateb i 16 awr o leiaf ar yr Isafswm Cyflog Cenedlaethol neu'r Cyflog Byw Cenedlaethol) ac un riant yn anabl neu wedi'i analluogi yn seiliedig ar dderbyn budd-daliadau penodol neu'n ysgwyddo cyfrifoldebau gofalu sylweddol yn seiliedig ar fudd-daliadau penodol a geir am ofalu. Mae hyn yn cynnwys teuluoedd lle mae un riant yn bodloni'r meini prawf cymhwysedd a'r riant arall yn derbyn un o'r budd-daliadau canlynol:
  - Budd-dal analluogrwydd
  - Lwfans gofalwyr
  - Lwfans anabledde difrifol
  - Lwfans cyflogaeth a chymorth sy'n seiliedig ar incwm
- yn y 12 mis cyntaf lle mae riant newydd ddod yn hunangyflogedig ac y mae eu busnes o fewn y cyfnod dechrau cychwynnol. Bydd angen i rieni gofrestru'r busnes gyda Chyllid a Thollau EM a darparu tystiolaeth eu bod yn hunangyflogedig er mwyn bod yn gymwys, ond ni fydd angen iddynt fodloni'r meini prawf o ran isafswm enillion yn ystod y cyfnod hwn;
- ar gyfer gofalwyr sy'n berthnasau os ydynt yn bodloni'r diffiniad o riant sy'n gweithio.

**1. Mae gennym ddyletswydd gyfreithiol i ymgysylltu â phobl â nodweddion gwarchodedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 (gweler Atodiad A o'r canllawiau Asesiad o'r Effaith ar**

## **Gydraddoldeb) sydd wedi'u nodi fel rhai perthnasol i'r polisi. Pa gamau rydych wedi'u cymryd i ymgysylltu â rhanddeiliaid, yn fewnol ac allanol?**

Datblygwyd cynllun cyfathrebu ar gyfer y Bil sy'n ceisio adeiladu ar y gwaith ymgysylltu helaeth a wnaed eisoes ynghylch y Cynnig ei hun.

Hyd yn hyn, cynhaliwyd trafodaethau ar gynnwys y Bil gyda'r canlynol:

- **Awdurdodau Lleol sy'n Weithredwyr Cynnar** – Dechreuodd y broses o weithredu'r Cynnig yn gynnar ym mis Medi 2017 yn Sir Fôn, Gwynedd, Blaenau Gwent, Caerffili, Sir y Fflint, Rhondda Cynon Taf ac Abertawe. Ers Medi 2018, mae Ceredigion, Castell-nedd Port Talbot, Casnewydd, Wrecsam a Conwy a Thorfaen wedi ymuno â'r awdurdodau hyn, ac ymunodd Caerdydd ym mis Hydref 2018. Rydym yn bwriadu cyflwyno'r cynnig mewn awdurdodau eraill yn 2019. Rydym wedi cyflwyno newid i'r trefniadau ar gyfer yr ail flwyddyn o weithredu'r Cynnig yn gynnar. Yn y flwyddyn gyntaf, gwnaeth pob awdurdod lleol ymgymryd â'r broses lawn eu hunain, gan gynnwys asesu ceisiadau a phrosesu taliadau i ddarparwyr gofal plant. Ar gyfer y cyfnod sy'n weddill, bydd yr awdurdodau lleol yn gweithio mewn partneriaeth, gydag un awdurdod yn derbyn ac yn prosesu ceisiadau ar ran awdurdodau eraill ac yn gwneud y taliadau perthnasol. Gofynnwyd am sylwadau rhai o'r awdurdodau lleol hyn ar hyfywedd sefydlu un system gais genedlaethol, a defnyddiwyd eu hadborth i lunio'r opsiynau dan ystyriaeth.
- **Sefydliadau Ambarél** – mae yna bum sefydliad ambarél ar gyfer y sector gofal plant, wedi'u dwyn ynghyd fel un grŵp o dan yr enw Cwlwm<sup>5</sup>. Rhannwyd diweddariadau rheolaidd ar waith gweithredu cynnar y Cynnig gyda Cwlwm a gofynnwyd am eu sylwadau ar sefydlu un system gais genedlaethol. Mae eu sylwadau'n berthnasol ar gyfer datblygu system dalu i ddarparwyr gofal plant hefyd.
- **Rhanddeiliaid Allweddol** – yn ogystal â Cwlwm, mae Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid y Cynnig Gofal Plant yn cynnwys cynrychiolwyr o Grŵp Darparwyr Gofal Plant Cymru Gyfan; Dechrau'n Deg Cymru Gyfan; Arolygiaeth Gofal Cymru (Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru cynt); Estyn; Comisiynydd Plant Cymru; Plant yng Nghymru; Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, Mentrau Iaith, Comisiynydd y Gymraeg a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Gwahoddwyd y grŵp hwn i drafod opsiynau ar gyfer cynnal gwiriadau cymhwysedd yn y dyfodol a diben Bil Cyllido Gofal Plant (Cymru) ar 23 Tachwedd 2017 ac maent wedi cael diweddariadau rheolaidd ar y Bil ers hynny.
- **Adrannau Llywodraeth y DU** – wrth lunio'r Bil, mae Llywodraeth Cymru wedi gweithio'n agos gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau a'r Swyddfa Gartref.

<sup>5</sup> Mae Cwlwm yn dwyn ynghyd y pum prif sefydliad gofal plant yng Nghymru er mwyn darparu gwasanaeth integredig dwyieithog sy'n ceisio sicrhau'r deilliannau gorau posibl ar gyfer plant a theuluoedd ar draws Cymru. Dyma sefydliadau partner Cwlwm: Mudiad Meithrin; Clybiau Plant Cymru; Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd Cymru; y Gymdeithas Broffesiynol ar gyfer Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar, a Chymdeithas Darparwyr Cyn-ysgol Cymru.

Cynhaliwyd trafodaethau am y Bil gyda'r Swyddfa Gymreig, y Weinyddiaeth Amddiffyn a'r Adran Addysg hefyd mewn perthynas â'r data i'w rannu gyda Llywodraeth Cymru a'r gwersi i'w dysgu o Ofal Plant Di-dreth a chynllun hawliau estynedig Lloegr.

Datblygwyd cynllun ymgysylltu ar gyfer Rhaglen y Cynnig Gofal Plant yn 2016 sy'n amlinellu sut roedd Llywodraeth Cymru'n bwriadu ymgysylltu â rhanddeiliaid, yn fewnol ac allanol.

Datblygwyd strategaeth gyfathrebu ar gyfer y Cynnig Gofal Plant. I gefnogi'r strategaeth, lansiwyd yr ymgyrch #TrafodGofalPlant / #TalkChildcare ym mis Awst 2016 a chynhyrchwyd cynllun gweithgarwch sy'n nodi sut roedd Llywodraeth Cymru'n bwriadu ymgysylltu â gwahanol gynulleidfaoedd gydol yr ymgyrch.

Yn ystod cam cyntaf yr ymgyrch hon, a gynhaliwyd rhwng mis Awst 2016 a mis Ebrill 2017, bu Llywodraeth Cymru'n gwneud y canlynol:

- cynnal arolwg ar-lein yn gofyn i bobl beth sy'n bwysig am ddewis gofal plant i bob oed; beth fyddai'n galluogi pobl i gael gafael arno'n haws; a yw pobl yn manteisio ar hawl addysg gynnar cyfredol a beth sy'n bwysig i bobl am y cynnig newydd;
- cynnal Sioe Deithiol #TrafodGofalPlant a ymwelodd â 15 tref yng Nghymru a nifer o leoliadau gofal plant;
- comisiynu cyfres o grwpiau ffocws manwl gyda rhieni; a
- siarad â darparwyr gofal plant drwy gyfres o ddigwyddiadau rhanbarthol, grwpiau ffocws a gweminarau.

Cymerodd dros 6,250 o bobl ran yn y cam cyntaf hwn o'r ymgyrch, yn amrywio o rieni i ddarparwyr gofal plant. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi'r prif negeseuon a dderbyniwyd gan randdeiliaid ac wedi amlinellu'r camau gweithredu y bwriedir eu cymryd mewn perthynas â'r pwyntiau a godwyd<sup>6</sup>. Ochr yn ochr â hyn, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ganfyddiadau'r grwpiau ffocws gyda rhieni hefyd<sup>7</sup>.

I barhau â'r ymgysylltu hwn, lansiwyd cam 2 ymgyrch #TrafodGofalPlant ym mis Hydref 2017. Mae'r cam hwn yn canolbwyntio ar (ond heb fod yn gyfyngedig i) ddarparwyr gofal plant er mwyn sicrhau eu bod i gyd yn ymwybodol o'r Cynnig, ond ar lefel genedlaethol yn bennaf. Mae hefyd yn dwyn ynghyd yr hyn a ddysgwyd o'r broses weithredu gynnar a sylwadau'r rheini a gymerodd ran. Cynhaliwyd 5 digwyddiad i ddarparwyr yn ystod haf 2018, a bwriedir cynnal 4 digwyddiad pellach yn yr hydref.

Bydd cam 2 ymgyrch #TrafodGofalPlant hefyd yn ceisio ymgysylltu â chymunedau sy'n fwy anodd eu cyrraedd. Mae Llywodraeth Cymru wrthi'n ystyried yr adborth a gafwyd o ddigwyddiadau ymgysylltu diweddar â darparwyr Gofal Plant, yn enwedig ar sut gellir hyrwyddo'r Cynnig mewn cymunedau sy'n anodd eu cyrraedd, er enghraifft cymunedau Sipsiwn a Theithwyr a chymunedau ffoaduriaid, a sut orau i

<sup>6</sup> <http://gov.wales/topics/people-and-communities/people/children-and-young-people/childcare/talk-childcare/?skip=1&lang=cy>

<sup>7</sup> <http://gov.wales/statistics-and-research/the-childcare-offer-for-wales/?skip=1&lang=cy>

helpu grwpiau o'r fath i fanteisio ar y Cynnig.

Bwriedir cynnal grwpiau ffocws pellach â grwpiau sy'n anodd eu cyrraedd ar ddiwedd 2018 ac ar ddechrau 2019.

## **2. Mae'n rhaid i'ch penderfyniadau fod yn seiliedig ar dystiolaeth gadarn. Pa sylfaen dystiolaeth a ddefnyddiwyd gennych? Rhestrwch ffynhonnell y dystiolaeth hon e.e. Arolwg Cenedlaethol Cymru. Ydych chi'n ystyried bod y dystiolaeth yn gryf, boddhaol neu wan ac oes yna unrhyw fylchau yn y dystiolaeth?**

### **Bil Cyllido Gofal Plant (Cymru)**

Prif ddibenion y Bil fydd galluogi system genedlaethol ar-lein ar gyfer gwirio a yw'r rhieni sy'n gwneud cais am y Cynnig yn gymwys i wneud hynny. Ystyriwyd pum opsiwn ar gyfer darparu system ymgeisio a gwirio cymhwysra a cheir rhagor o wybodaeth am y rhain yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol. Yr opsiynau hyn yw:

**Opsiwn 1** - Awdurdodau Lleol yn derbyn ceisiadau ac yn gwirio cymhwysra

**Opsiwn 2** – Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi (CThEM) yn derbyn ceisiadau ac yn gwirio cymhwysra

**Opsiwn 3** - Llywodraeth Cymru'n derbyn ceisiadau ac yn gwirio cymhwysra

**Opsiwn 4** - Parti wedi'i gontractio yn derbyn ceisiadau ac yn gwirio cymhwysra

**Opsiwn 5** – 10 Awdurdod Gweithredu'n derbyn ceisiadau ac yn gwirio cymhwysra ar ran pob Awdurdod Lleol

Rydym wedi cyflwyno newid i'r trefniadau ar gyfer yr ail flwyddyn o weithredu'r Cynnig yn gynnar. Yn y flwyddyn gyntaf, gwnaeth pob awdurdod lleol ymgymryd â'r broses lawn eu hunain, gan gynnwys asesu ceisiadau a phrosesu taliadau i ddarparu gofal plant. Ar gyfer y cyfnod sy'n weddill, bydd yr awdurdodau lleol yn gweithio mewn partneriaeth, gydag un awdurdod yn derbyn ac yn prosesu ceisiadau ar ran awdurdodau eraill ac yn gwneud y taliadau perthnasol. O ganlyniad i'r trefniadau newydd hyn, rydym wedi ychwanegu pumed opsiwn i'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol sydd bellach wedi'i bennu fel yr opsiwn sylfaenol ("gwneud dim").

Un opsiwn fyddai i Awdurdoau Lleol dderbyn ceisiadau a gwirio cymhwysra mewn modd tebyg i'r hyn sy'n digwydd ar hyn o bryd yn achos yr Awdurdodau Lleol sy'n Withredwyr Cynnar. Byddai gofyn i rieni wirio eu cymhwysra trwy ddull dangosol yn gyntaf cyn cwblhau cais a chyflwyno tystiolaeth o'u cymhwysra, naill ai fel copi caled neu'n ddigidol. O dan y trefniadau presennol, byddai'r Awdurdodau Lleol yn gwirio'r dogfennau fesul un gan ystyried y meini prawf cymhwysra er mwyn penderfynu a yw rhieni'n gymwys ai peidio.

Byddai'r baich amser ar rieni a gwarcheidwaid i wirio eu cymhwysra a chyflwyno'u cais, ynghyd â'r dogfennau ategol, yn y ffordd hon gryn dipyn yn drymach na'r baich amser o dan yr opsiwn a ffefrir. Dylai'r system ddigidol a ragwelir dan yr opsiwn CThEM ei gwneud yn haws i rieni ymgeisio, gan y bydd llai o ffurflenni i'w llenwi a llai

o ddogfennau i'w darparu fel prawf o gymhwysra. Bydd rheini yn cael gwybod a ydynt yn gymwys yn fwy cyflym hefyd. Mae'r opsiwn hwn hefyd yn lleihau'r risg o ran diogelwch data a thwyll. O ganlyniad, rydym o'r farn y bydd rhagor o rieni yn debygol o wneud cais am y Cynnig ac o elwa ohono.

Rhodddwyd ystyriaeth i waith ymchwil a gwblhawyd gan CThEM ar agweddau rhieni at geisiadau am Ofal Plant Di-dreth, a ddangosodd fod rhieni am gael system syml a hawdd i'w defnyddio, a gwybodaeth glir am y cymorth sydd ar gael iddynt<sup>8</sup>.

O Arolwg Cenedlaethol Cymru, gwyddom fod allgau digidol yn gymharol isel (15%) ymysg oedolion yn gyffredinol (16+), ond yn uwch ymysg pobl â salwch tymor hir sy'n eu cyfyngu a phobl anabl ac eiddil (25%) a phobl 50 oed a throsodd (27%)<sup>9</sup>. Gan gydnabod hyn, wrth weithredu'r Bil ni fyddwn yn gofyn i'r system ymgeisio fod ar-lein yn llwyr ac mae trefniadau ar droed ar gyfer dull o ymgeisio all-lein, gyda llinell ffôn yn cynnig cymorth i rieni gwblhau ceisiadau.

I grynhoi, mae defnyddio system CThEM yn cynnig nifer o fanteision, gan gynnwys:

- galluogi gwiriadau cymhwysra i gael eu gwneud ar sail data ar y sefyllfa ar yr union adeg honno;
- darparu system a dull gweithredu cyson ar draws Cymru gyfan;
- rhoi penderfyniadau cyflym i rieni ynghylch eu cymhwysra;
- lleihau'r risg yn ymwneud â diogelwch data a thwyll;
- profiad CThEM, drwy eu Gwasanaeth Gofal Plant, o weinyddu'r gwiriadau cymhwysra ar gyfer y cynllun Gofal Plant Di-dreth a'r Cynnig gofal plant yn Lloegr. Erbyn i'n Cynnig ni gael ei gyflwyno'n llawn, bydd ganddynt dair blynedd o brofiad a dysgu.

***Mae'n bwysig nodi unrhyw gyfleoedd rydych wedi'u nodi a allai hybu neu hyrwyddo cydraddoldeb.***

---

<sup>8</sup>[https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment\\_data/file/293081/TFC\\_online\\_questionnaires\\_summary\\_of\\_responses.pdf](https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/293081/TFC_online_questionnaires_summary_of_responses.pdf)

<sup>9</sup> Arolwg Cenedlaethol Cymru Llywodraeth Cymru - <http://gov.wales/statistics-and-research/national-survey>

## Effaith

Llenwch yr adran nesaf i ddangos y gallai'r polisi / penderfyniad / ymarfer hwn gael effaith (gadarnhaol neu negyddol) ar y grwpiau gwarchoddedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 (gweler dogfen ganllawiau yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb am ragor o wybodaeth).

Nid yw diffyg tystiolaeth yn rheswm dros *beidio* symud ymlaen i gynnal Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb. Nodwch unrhyw fylchau mewn tystiolaeth a nodwyd gennych ac eglurwch sut/a ydych chi'n bwriadu llenwi'r bylchau hyn.

### 4.1 Ydych chi'n credu y bydd y polisi / penderfyniad / ymarfer hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar bobl oherwydd eu hoedran?

Oedran	Cadarnhaol	Negyddol	Dim / Dibwys	Rhesymau am eich penderfyniad (yn cynnwys tystiolaeth) / Sut allai effeithio?
Pobl iau <i>(Plant a phobl ifanc, hyd at 18 oed)</i>	Plant cymwys 3 a 4 oed		Plant nad ydynt yn gymwys	<p>Dylai'r system ymgeisio a gwirio cymhwysiant gael effaith gadarnhaol ar blant sy'n gymwys ar gyfer y Cynnig, drwy sicrhau bod penderfyniad cyflym yn cael ei wneud ynghylch cymhwysra a'u galluogi i fanteisio ar ofal plant cyn gynted â phosib.</p> <p>Bydd ymgeiswyr yn gallu gwneud cais ar-lein neu dros y ffôn am y Cynnig ac yn gallu mynegi eu hoff ddull o ryngweithio â'r system a derbyn hysbysiadau. Mae hyn yn berthnasol a gweithredol waeth beth fo oedran yr ymgeisydd.</p>



Pobl 18-50 oed	Rhieni a gwarcheidwaid sy'n gweithio cymwys		Rhieni a gwarcheidwaid anghymwys	Bydd ymgeiswyr yn gallu gwneud cais ar-lein neu dros y ffôn am y Cynnig ac yn gallu mynegi eu hoff ddull o ryngweithio â'r system a derbyn hysbysiadau. Mae hyn yn berthnasol a gweithredol waeth beth fo oedran yr ymgeisydd.
Pobl hŷn (50+)	Rhieni a gwarcheidwaid hŷn sy'n gymwys		Rhieni a gwarcheidwaid hŷn nad ydynt yn gymwys	Bydd ymgeiswyr yn gallu gwneud cais ar-lein neu dros y ffôn am y Cynnig ac yn gallu mynegi eu hoff ddull o ryngweithio â'r system a derbyn hysbysiadau. Mae hyn yn berthnasol a gweithredol waeth beth fo oedran yr ymgeisydd.  Byddwn yn cymryd camau i sicrhau bod unrhyw berson nad yw'n medru defnyddio dulliau digidol yn gallu gwneud cais am y Cynnig.

#### 4.2 Oherwydd eu bod yn anabl?

Anabl	Cadarnhaol	Negyddol	Dim / Dibwys	Rheswm am eich penderfyniad (yn cynnwys tystiolaeth) / Sut allai effeithio?
Anabl			Dim effaith	Bydd ymgeiswyr yn gallu gwneud cais ar-lein neu dros y ffôn am y Cynnig ac yn gallu mynegi eu hoff ddull o ryngweithio â'r system a derbyn hysbysiadau.

#### 4.3 Oherwydd eu rhywedd (dyn neu fenyw)?

Rhywedd	Cadarnhaol	Negyddol	Dim / Dibwys	Rheswm am eich penderfyniad (yn cynnwys tystiolaeth) / Sut allai

				<b>effeithio?</b>
Dyn			Dim effaith	Bydd modd i bawb ddefnyddio'r system ymgeisio a gwirio cymhwystra, ta beth fo'u rhywedd.
Benyw			Dim effaith	Bydd modd i bawb ddefnyddio'r system ymgeisio a gwirio cymhwystra, ta beth fo'u rhywedd.

#### 4.4 Oherwydd eu bod yn drawsryweddol?

<b>Trawsryweddol</b>	<b>Cadarnhaol</b>	<b>Negyddol</b>	<b>Dim / Dibwys</b>	<b>Rheswm am eich penderfyniad (yn cynnwys tystiolaeth) / Sut allai effeithio?</b>
Trawsryweddol			Dim effaith	Bydd modd i bawb ddefnyddio'r system ymgeisio a gwirio cymhwystra.

#### 4.5 Oherwydd eu priodas neu bartneriaeth sifil?

<b>Priodas a Phartneriaeth Sifil</b>	<b>Cadarnhaol</b>	<b>Negyddol</b>	<b>Dim / Dibwys</b>	<b>Rheswm am eich penderfyniad (yn cynnwys tystiolaeth) / Sut allai effeithio?</b>
Priodas			Dim effaith	Bydd modd i bawb ddefnyddio'r system ymgeisio a gwirio cymhwystra.
Partneriaeth Sifil			Dim effaith	Bydd modd i bawb ddefnyddio'r system ymgeisio a gwirio cymhwystra.

#### 4.6 Oherwydd eu beichiogrwydd neu famolaeth?

Beichiogrwydd a Mamolaeth	Cadarnhaol	Negyddol	Dim / Dibwys	Rheswm am eich penderfyniad (yn cynnwys tystiolaeth) / Sut allai effeithio?
Beichiogrwydd			Dim effaith	Bydd modd i bawb ddefnyddio'r system ymgeisio a gwirio cymhwysra.
Mamolaeth (y cyfnod ar ôl geni)			Dim effaith	

#### 4.7 Oherwydd eu hil?

Hil	Cadarnhaol	Negyddol	Dim / Dibwys	Rheswm am eich penderfyniad (yn cynnwys tystiolaeth) / Sut allai effeithio?
Pobl o leiafrifoedd ethnig e.e. Asiaidd, Du			Dim effaith	<p>Bydd modd i bawb ddefnyddio'r system ymgeisio a gwirio cymhwysra, beth bynnag fo'u hil.</p> <p>Argymhellodd rhaglen ymchwil fewnol y Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi y dylid teilwra gwybodaeth am ddarpariaeth gofal plant i wahanol grwpiau diwylliannol.</p> <p>Ychydig o wybodaeth sydd am faint o bob grŵp ethnig sy'n defnyddio gofal plant. Mae data'n cael ei gasglu fel rhan o werthuso a monitro gwaith gweithredu cynnar y Cynnig.</p> <p>Mae angen gwneud rhagor</p>

				o waith ymchwil ar yr ymwybyddiaeth a'r defnydd o ofal plant gan gymunedau pobl dduon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig i sicrhau bod y Cynnig yn cael ei ddatblygu mewn ffordd sy'n eu galluogi i fanteisio arno'n gyfartal. Bydd hyn yn cynnwys ystyriaeth or system ymgeisio a gwirio cymhwysra. Gallai hyn arwain at fwy o deuluoedd o'r cymunedau hyn yn defnyddio gofal plant, yn elwa ar gymorth gan y llywodraeth gyda gofal plant wedi'i ariannu a'r cymorth datblygiad plant ychwanegol.
Tarddiad Cenedlaethol (e.e. Cymry, Saeson)			Dim effaith	Bydd modd i bawb ddefnyddio'r system ymgeisio a gwirio cymhwysra. Cyhoeddwyd asesiad effaith ar wahân ar gyfer y Gymraeg.
Geiswyr Lloches a Ffoaduriaid			Dim effaith.	Nid yw'r rhan fwyaf o geiswyr lloches yn cael gweithio pan fydd eu cais am loches yn cael ei ystyried. Mae hyn yn golygu na fyddant yn gymwys am y Cynnig.
Sipsiwn a Theithwyr			Dim effaith	Bydd modd i bawb ddefnyddio'r system ymgeisio a gwirio cymhwysra. Argymhellodd rhaglen ymchwil fewnol y Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi y dylid teilwra gwybodaeth am ddarpariaeth gofal plant i wahanol grwpiau diwylliannol.  Ychydig o wybodaeth sydd am faint o bob grŵp ethnig sy'n defnyddio gofal plant. Mae data'n cael ei gasglu fel rhan o werthuso a

				<p>monitro gwaith gweithredu cynnar y Cynnig.</p> <p>Mae angen gwneud rhagor o waith ymchwil ar yr ymwybyddiaeth a'r defnydd o ofal plant gan gymunedau sipsiwn a theithwyr i sicrhau bod y Cynnig yn cael ei ddatblygu mewn ffordd sy'n eu galluogi i fanteisio arno'n gyfartal. Bydd hyn yn cynnwys ystyriaeth or system ymgeisio a gwirio cymhwysra. Gallai hyn arwain at fwy o deuluoedd o'r cymunedau hyn yn defnyddio gofal plant, yn elwa ar gymorth gan y llywodraeth gyda gofal plant wedi'i ariannu a'r cymorth datblygiad plant ychwanegol.</p>
Ymfudwyr			Dim effaith	<p>Bydd modd i bawb ddefnyddio'r system ymgeisio a gwirio cymhwysra.</p> <p>Argymhellodd rhaglen ymchwil fewnol y Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi y dylid teilwra gwybodaeth am ddarpariaeth gofal plant i wahanol grwpiau diwylliannol.</p> <p>Ychydig o wybodaeth sydd am faint o bob grŵp ethnig sy'n defnyddio gofal plant. Mae data'n cael ei gasglu fel rhan o werthuso a monitro gwaith gweithredu cynnar y Cynnig.</p> <p>Mae angen gwneud rhagor o waith ymchwil ar yr ymwybyddiaeth a'r defnydd o ofal plant gan gymunedau ymfudwyr i sicrhau bod y Cynnig yn cael ei ddatblygu</p>



				mewn ffordd sy'n eu galluogi i fanteisio arno'n gyfartal. Bydd hyn yn cynnwys ystyriaeth or system ymgeisio a gwirio cymhwysra. Gallai hyn arwain at fwy o deuluoedd o'r cymunedau hyn yn defnyddio gofal plant, yn elwa ar gymorth gan y llywodraeth gyda gofal plant wedi'i ariannu a'r cymorth datblygiad plant ychwanegol.
Eraill			Dim effaith	Bydd modd i bawb ddefnyddio'r system ymgeisio a gwirio cymhwysra, beth bynnaf fo'u hil.

#### 4.8 Oherwydd eu crefydd a'u cred neu ddiffyg cred?

Crefydd a chred neu ddiffyg cred	Cadarnhaol	Negyddol	Dim / Dibwys	Rheswm am eich penderfyniad (yn cynnwys tystiolaeth) / Sut allai effeithio?
Crefydd a chred neu ddiffyg cred			Dim effaith	Bydd modd i bawb ddefnyddio'r system ymgeisio a gwirio cymhwysra, waeth beth fo'u crefydd a chred neu ddiffyg cred.

#### 4.9 Oherwydd eu cyfeiriadedd rhywiol?

Cyfeiriadedd rhywiol	Cadarnhaol	Negyddol	Dim / Dibwys	Rheswm am eich penderfyniad (yn cynnwys tystiolaeth) / Sut allai effeithio?
Cyfeiriadedd rhywiol			Dim effaith	Bydd modd i bawb ddefnyddio'r system ymgeisio a gwirio cymhwysra, waeth beth fo'u cyfeiriadedd rhywiol.

**4.10 Ydych chi'n credu y bydd y polisi hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar hawliau dynol pobl? *Gweler pwynt 1.4 Atodiad A yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb – Canllawiau ar gyfer rhagor o wybodaeth am Hawliau Dynol.***

Hawliau Dynol	Cadarnhaol	Negyddol	Dim / Dibwys	Rheswm am eich penderfyniad (yn cynnwys tystiolaeth) / Sut allai effeithio?
Hawliau Dynol yn cynnwys Deddf Hawliau Dynol a Chonfensiynau y CU	Rhieni a phlant cymwys			<p>Rydym wedi ystyried erthyglau'r Ddeddf Hawliau Dynol ac o'r farn bod y Bil yn gydnaws â nhw.</p> <p>Mae'r Bil yn seiliedig ar ddarparu cyfle i deuluoedd cymwys fanteisio ar ofal plant wedi'i ariannu gan y Llywodraeth mewn lleoliadau sydd wedi'u cofrestru gydag AGC neu Ofsted i sicrhau, cyn belled â phosibl, bod plant yn derbyn gofal mewn amgylchedd diogel a gofalgar a bod eu hawliau dynol sylfaenol yn cael eu gwarchod.</p> <p>Mae <b>Erthygl 6</b> yn cael ei gweithredu i'r graddau y bydd y Bil yn cynnwys mecanwaith a fydd yn galluogi hawl wyr i apelio yn erbyn penderfyniadau mewn tribiwnlys annibynnol a diduedd ar y sail eu bod yn gymwys ar gyfer y Cynnig.</p> <p>Mae <b>Erthygl 14</b> yn cael ei gweithredu i'r graddau y bydd y Bil yn hwyluso system nad ydyw'n seiliedig ar wahaniaethu ar unrhyw sail e.e. rhyw, hil, lliw, iaith, crefydd, barn wleidyddol neu farn arall, tarddiad cenedlaethol neu</p>

			<p>gymdeithasol, cysylltiad â lleiafrif cenedlaethol, eiddo, genedigaeth neu unrhyw statws arall.</p> <p>Mae asesiad o effaith ar Hawliau Plant wedi'i gwblhau ar wahân ac mae wedi'i gyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru gyda'r asesiad hwn ac i gyfynd â'r adeg y bydd y Bil yn cael ei gyflwyno gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru.</p>
--	--	--	--





***Os ydych wedi nodi unrhyw effeithiau (heblaw rhai dibwys), cadarnhaol neu negyddol, ar unrhyw grŵp â nodweddion gwarchoddedig, llenwch Rhan 2.***

***Dim ond os nad oes unrhyw effeithiau neu effeithiau cadarnhaol neu negyddol ddibwys y dylech fynd ymlaen i ran 2 a llofnodi'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb.***

## **Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb – Rhan 2**

**1. Gan adeiladu ar y dystiolaeth y gwnaethoch ei chasglu a'i hystyried yn Rhan 1, ystyriwch y canlynol:**

### **1.1 Sut allai, neu sut mae'r polisi'n helpu i hybu / hyrwyddo cyfle cyfartal?**

Er enghraifft, mesurau cadarnhaol wedi'u cynllunio i fynd i'r afael â chymunedau gwahanol difreintiedig ac anodd i'w cyrraedd neu grwpiau gwarchoddedig?

Prif ddiben y Bil arfaethedig yw galluogi datblygu system genedlaethol ar-lein ar gyfer gwirio a yw'r rheini sy'n gwneud cais am y Cynnig yn gymwys i wneud hynny. Ni fyddai'r system ar-lein ynnddi'i hun yn cael unrhyw effeithiau penodol ar hawliau plant. Bydd ond yn sicrhau bod y plant cymwys yn cael eu nodi a bod eu rhieni, os ydynt yn dymuno gwneud hynny, yn derbyn y gofal plant wedi'i gyllido y mae ganddynt hawl iddo.

Bydd pob math o deuluoedd yn gallu defnyddio'r system ar-lein a chyflwyno cais am ofal plant wedi'i gyllido, gan y bydd dwy ffordd o wneud cais. Bydd ceisiadau ar-lein yn cael eu hanfon drwy borthol digidol; bydd ceisiadau all-lein yn cael eu rheoli dros y ffôn. Bydd y system genedlaethol yn hwyluso'r broses o ddarparu'r Cynnig drwy gynnig ffordd hawdd a chyflym o wneud cais am ofal plant a rhoi penderfyniad cyflym ynghylch cymhwysedd. Bydd hynny'n caniatáu i'r ymgeisydd a'r plentyn fanteisio ar y cynnig cyn gynted ag y gellir gwneud trefniadau â darparwr cymwys.

### **1.2 Sut allai / sut mae'r polisi / penderfyniad yn helpu i ddileu gwahaniaethu,, aflonyddu neu erledigaeth anghyfreithlon?**

D/B

### **1.3 Sut allai / sut mae'r polisi'n effeithio ar hybu / hyrwyddo cysylltiadau da a chydlyniant cymunedol ehangach?**

Bwriad y Bil yw creu un system genedlaethol, gyson ar gyfer ymgeisio a gwirio cymhwysedd am y Cynnig. Dylai hyn helpu i osgoi sefyllfa yng Nghymru lle mae pob awdurdod lleol yn gwirio cymhwysedd mewn ffordd wahanol a bydd yn golygu bod yr holl ymgeiswyr yng Nghymru a Lloegr yn gallu defnyddio'r un gwasanaeth a bod rheolau'r cynllun yn cael eu gweithredu'n gyson yn gyffredinol.

## 2. Cryfhau'r polisi

**2.1 Os yw'r polisi'n debygol o gael effaith negyddol ('effaith andwyol') ar unrhyw un o'r grwpiau gwarchoddedig neu gysylltiadau da, beth yw'r rhesymau am hyn?**

**Pa newidiadau/gamau ymarferol allai helpu i leihau neu ddileu unrhyw effeithiau negyddol a nodwyd yn Rhan 1?**

O ran y system ar-lein a fydd yn cael ei sefydlu at ddiben gwneud cais a gwirio cymhwysedd, fe fydd yna linell ffôn i ddiwallu anghenion pobl sydd wedi'u hallgáu'n ddigidol neu'n methu cwblhau'r broses yn electronig.

Mae Llywodraeth Cymru yn rhoi blaenoriaeth i sicrhau bod y Cynnig mor hygyrch â phosibl i'r holl rieni cymwys. Mae swyddogion wedi dechrau ymgysylltu â rhieni i ddeall y rhwystrau cyfredol sy'n eu hatal rhag gallu manteisio ar ofal plant a beth sy'n bwysig iddyn nhw o ran sut mae'r Cynnig yn cael ei ddarparu. Mae'r ymgysylltu hwn wedi dangos bod hyblygrwydd a'r dewis o ofal plant yn hanfodol er mwyn i bawb allu manteisio arno. Bydd swyddogion yn parhau i ymgysylltu â rhieni, gan dargedu grwpiau sy'n cael trafferth i fanteisio ar y Cynnig yn benodol, er mwyn dod o hyd i ffyrdd o wneud y Cynnig mor hygyrch â phosibl.

Fel rhan o ganllawiau Llywodraeth Cymru i awdurdodau lleol, bydd Llywodraeth Cymru'n annog awdurdodau lleol i sicrhau bod gwybodaeth am y Cynnig, a sut i wneud cais amdano, yn cael ei lledaenu'n effeithiol i gymunedau a grwpiau sy'n llai tebygol yn draddodiadol o fanteisio ar ofal plant ffurfiol.

**2.2 Os nad oes unrhyw gamau'n cael eu cymryd i ddileu neu liniaru effaith negyddol / andwyol, nodwch reswm i gyfiawnhau pam.**

**(Cofiwch os ydych wedi nodi gwahaniaethu anghyfreithlon (uniongyrchol neu bosibl) o ganlyniad i'r polisi, bod rhaid newid neu ddiwygio'r polisi.)**

Amherthnasol

## 3. Monitro, gwerthuso ac adolygu

**Sut fyddwch chi'n monitro effaith ac effeithiolrwydd y polisi?**

Rhestrwch fanylion unrhyw waith dilynol a wneir mewn perthynas â'r polisi (e.e. ymgynghoriadau, gwaith monitro penodol ac ati).

Wrth i'r cynnig gofal plant a'r system ymgeisio ar-lein gysylltiedig gael eu gweithredu yn Lloegr rydym yn disgwyl dysgu gwersi o ran effaith ar bobl â nodweddion gwarchoddedig. Bydd swyddogion Llywodraeth Cymru'n gweithio gyda chymheiriaid yn Lloegr i gael dealltwriaeth lawnach o raddau a natur unrhyw effaith.

Yn ystod Cyfnod 1, gwnaeth Cyllid a Thollau EM roi nodyn i'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg yn amlinellu sut y maent wedi sefydlu rhaglen ymchwil a gwerthuso gynhwysfawr er mwyn monitro, deall a gwella profiadau rhieni a darparwyr o'r gwasanaeth.

Mae eu harolwg o brofiad cwsmeriaid ar gyfer y Gwasanaeth Gofal Plant wedi'i gynnal yn barhaus ers 2017 gan IFF Research, ac mae'n cwmpasu'r Cynllun Gofal Plant Di-dreth a'r cynllun 30 awr o ofal plant. Cynhelir ymchwil yn chwarterol gyda rhieni ac mae hyn yn fodd i Gyllid a Thollau EM ddeall profiadau cwsmeriaid o brif bwyntiau cyswllt y system e.e. y broses ymgeisio/cofrestru, a'r defnydd o gyfrifon a chymorth. Mae IFF Research hefyd yn cynnal ymchwil ansoddol er mwyn deall y prif ysgogiadau a rhwystrau ar gyfer rhieni a darparwyr mewn perthynas â Gofal Plant Di-dreth. Cynhelir yr ymchwil hon fesul cam er mwyn deall sut y mae'r pethau hyn yn newid dros amser, a'n galluogi i fwydo unrhyw ganfyddiadau i gynlluniau cyfathrebu a marchnata.

Yn ôl Cyllid a Thollau EM, gwelwyd cynnydd cyson yn y sgoriau ar gyfer bodlonrwydd cwsmeriaid, o 76% yn haf 2017 i 84% yn haf 2018.

Bydd adolygiad mwy cyffredinol yn cael ei gynnal o effeithiolrwydd, effeithlonrwydd ac effaith y Cynnig Gofal Plant ar gyfer Cymru a chaiff effaith unrhyw system ymgeisio a gwirio cymhwysra ei hystyried fel rhan o hynny.

Mae'r asesiad effaith hwn wedi'i adolygu yn ystod Cyfnod 3 taith y Bil drwy'r Cynulliad Cenedlaethol.

Bydd canlyniadau'r holl asesiadau effaith lle mae'r effaith yn sylweddol yn cael eu cyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru.

#### 4. Datganiad

**\*Dileer fel y bo'n briodol:**

**Mae'r / Nid yw'r polisi yn cael effaith sylweddol ar faterion cydraddoldeb**

<b>Swyddog sy'n cwblhau'r Aseiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb</b>
Enw: Catrin Davies
Adran: EPS – Gofal plant, chwarae a'r blynyddoedd cynnar
Dyddiad: 20 Tachwedd 2018
Llofnod:
<b>Pennaeth Is-adran (Cymeradwyo)</b>
Enw: Owain Lloyd
Teitl swydd ac adran: Is-Gyfarwyddwr, Is-adran Gofal Plant, Chwarae a'r Blynyddoedd Cynnar
Dyddiad: 19 Tachwedd 2018
Llofnod:
Dyddiad Adolygu: Ar yr amod bod y Bil yn cael Cydsyniad Brenhinol ar ddechrau 2019, nid oes cynlluniau i gynnal unrhyw adolygiadau pellach.  Bydd aseidiadau effaith integredig ar wahân yn cael eu datblygu ar gyfer unrhyw is-ddeddfwriaeth sy'n deillio o'r Bil hwn ac mewn cysylltiad â'r Cynnig Gofal Plant yn fwy cyffredinol.

